# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION - CYFARFOD EBRILL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 13eg o Ebrill 2021** |
| **AMSER** | **7 y.h. – Cyfarfod misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Cyfarfod Rhithiol drwy Zoom** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd Ynyr Ellis (YE) bawb i'r cyfarfod. Yn bresennol heno roedd Sara Williams **(SW),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | John Owen **(JO),** William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**. |
| **3.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad ar y noson. |
| **4.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Adroddodd y clerc ei bod wedi ychwanegu'r faril ar y groes i gofrestr asedau'r Cyngor. Esboniodd ei bod wedi cael cadarnhad gan yr Yswirwyr ni fydd cost ychwanegol i'w ychwanegu i'r yswiriant. |
| **5.** | **COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2021** |
| | **a) CYFLWYNO A MABWYSIADU**<br>Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GW gyda GJ yn eilio a phawb yn cytuno.<br><br>**b) MATERION YN CODI**<br><br>**I. <u>Cais Cynllunio</u>**<br><br>**Rhif Cais:** C21/0092/43/DT<br>**Lleoliad:** Tyn Y Mynydd, Pistyll, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6LP<br>**Bwriad:** Dymchwel sied ardd bresennol a chodi adeilad gardd newydd ar yr un lleoliad.<br><br>Adroddodd AWJ ei fod wedi llythyru gyda'r Adran Gynllunio yn gofyn iddynt sicrhau nad yw'r sied yn cael ei ddefnyddio fel tŷ annedd ac adroddodd bryderon y trigolion. Ychwanegodd y |

*Llofnodwyd gan........................................................................... Dyddiad.................................................*

| | |
|---|---|
| | clerc ei bod hithau hefyd wedi gyrru sylwadau'r aelodau i'r Adran Gynllunio. Nodwyd bod y cais erbyn hyn wedi cael ei ganiatáu gyda'r amod canlynol:<br><br>*Rhaid defnyddio'r adeilad gardd a ganiateir yma at ddibenion is-raddol i ddefnydd anheddol eiddo Tyn y Mynydd yn unig ac nid at unrhyw bwrpas busnes.*<br><br>**II. <u>Golau Lôn Plas</u>**<br><br>Nodwyd nad oedd gwaith i ddatrus y broblem wedi ei gyflawni – Y clerc i ofyn am ddiweddariad gan y Cyngor Sir. |
| **6.** | **GÔR YRRU YN YR ARDAL** |
| | Adroddodd y clerc ei bod bellach wedi derbyn cyswllt gan Reolwr Gwylio Cyflymder Cymunedol yn gofyn am ffurflenni cais gan y gwirfoddolwyr. Esboniodd nid oedd wedi derbyn y ffurflenni i gychwyn ganddo i'w rhannu ac wedi cysylltu nôl i adrodd hyn. Nid oedd wedi clywed dim pellach. Y clerc i barhau i geisio sefydlu'r achos.<br><br>Adroddodd SW bod Morfa Nefyn a Botwnnog wedi derbyn twmpathau I arbed gyrru yn ddiweddar. Y clerc I ofyn I Uwch Beiriannydd Gygor Gwynedd paham fod y cymunedau yma wedi derbyn twmpathau a cais yr aelodau I gael twpathau yn Llithfaen wedi ei wrthod. |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **a) GW - TŶ WEDI EI GODI YN Y PENTREF HEB GANIATÂD CYNLLUNIO.**<br>Esboniodd GW bod y lleoliad yn cael ei adnabod fel Coach House sef cwt yn gefn Gwelfor, 2 Pistyll Terrace, Llithfaen. Aeth ymlaen i adrodd ei fod wedi derbyn gwybodaeth bod perchnogion y safle wedi newid pwrpas y cwt i dy annedd heb ganiatâd. Cytunodd yr aelod Lleol AWJ i wneud ymholiadau gyda'r Adran Gynllunio.<br><br>**b) RHIF CAIS/APP REF: C21/0316/43/DT - BRYN FFYNNON, LLITHFAEN, PWLLHELI, LL53 6PA**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau am y cais. Y Clerc i adrodd dim gwrthwynebiad i'r Adran Gynllunio. |
| **8.** | **GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO** |
| | Nodwyd bod dau gopi o'r rhybudd i'r gwersyllwr adael y safle bellach wedi ei arwyddo gan y clerc. Adroddodd SP er gwaethaf hyn roedd wedi bod yn amhosib anfon y llythyr gan fod yr heddwas oedd wedi cytuno ei anfon ar ei wyliau am bythefnos.<br><br>Aeth SP ymlaen i adrodd ei bod yn hollol amlwg bod y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y maes parcio ers blynyddoedd ond yn anffodus nid oedd wedi llwyddo cael hyd i'r dogfennau cofrestru. |

| | |
|---|---|
| | Ychwanegodd ei bod wedi cael amcan bris oddeutu £500 - £1000 gan Gyfreithiwr Lleol i baratoi gweithredoedd o'r newydd. Cynigiodd GW iddi ddechrau'r broses cofrestru gyda phawb yn cytuno.<br><br>Yn dilyn trafodaeth ar wersyllwyr ychwanegol ar y safle dros y penwythnos cytunodd GW ymuno GJ i leoli polyn uwch wrth y gromlech yn y maes parcio gydag arwydd dim gwersylla arno dros y penwythnos nesaf. |
| **9.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd y clerc ei bod wedi gyrru i dri swyddog cyfreithiol yn dilyn Catrin Gwyn ymadael yr ardan i wneud ymholiadau am y Les heb gyfarthrebiad yn ôl.<br><br>Awgrymodd SP iddi adael y les am y cyfamser gan fod problemau tamprwydd ychwanegol wedi dod i'r wyneb yn y Ganolfan.<br>Adroddodd SP bod yr arolwg gyntaf wedi cadarnhau mae yn yr ystafell snwcer yn unig oedd y broblem ond yn dilyn gwaith roedd yn amlwg ei fod yn fwy o broblen na'r ystafell hon. Ychwannegodd bod arolwg arall ar fin cael ei wneud a bydd yn diweddaru'r aelodau o'r ffordd ymlaen cyn gynted a bydd modd. |
| **10.** | **CEISIADAU TENDRO I DORI GWAIR Y FYNWENT** |
| | Derbyniwyd tri chais tendro i dorri gwair y fynwent. Cynigiodd GW i gynnig y cytundeb i Danny Osbourn gan fod safon ei waith wedi bod yn eithriadol. Eiliodd GJ.<br>Y clerc i weithredu a gofyn iddo sicrhau ei fod yn torri i'r maint lleiaf a phosib. |
| **11.** | **ADNEWYDDU AELODAETH UN LLAIS CYMRU** |
| | Cynigiodd LJ adnewyddu'r aelodaeth am bris o £98 gyda SW yn eilio a phawb yn cytuno. |
| **12.** | **MATERION LLEOL** |
| | **a) RHAGLEN WAITH CYNNAL TIROEDD 2021 -22 – PRIFFYRDD DWYFOR**<br>Derbyniwyd gwybodaeth bydd y Cyngor Sir yn torri gwair oddi fewn 30/40 m.y.a. yn Llithfaen a Phistyll ym misoedd Mai, Gorffennaf a Medi - ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**b) GJ - SYMUD AC YCHWANEGU BINIAU CI**<br>Derbyniwyd argymhelliad gan GJ i ail leoli'r bin main 25lts o waelod Lôn Plas i'r Maes Parcio yn dop y Nant a phrynu bin mwy main 50lts i Lon y Plas. Cytunodd yr aelodau - y clerc i weithredu.<br><br>**c) LJ – TOILEDAU CYHOEDDUS LLITHFAEN**<br>Adroddodd LJ bod cyflwr dychrynllyd ar yr hen doiledau cyhoeddus yn Llithfaen. |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad.........................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas* *E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP* *Ffon symudol: 07979438307*

Y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir os yw posib ei taclus, hefyd gofyn a oes bwriad i'w ail hagor.

**d) LLWYBR CERDDED I LITHFAEN**

Gofynnod LJ am ddiweddariad ar ei chais ym mis Chwefror i gael llwybr troed ar hyd y ffordd o'r Hen Eglwys i gyfeiriad Llanaelhaearn hyd at Lon Rhosydd.

Nid oedd gan AMJ ddiweddariad ar y noson – y mater i'w drafod fis nesaf.

**13. GOHEBIAETH A GWYBODAETH**

**a) BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS CYMRU**

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.

**b) TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL: YMCHWIL GYDA'R TRYDYDD SECTOR, AWDURDODAU LLEOL A CHYNGHORAU CYMUNED A THREF.**

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.

**c) LLYTHYR DIOLCH GAN HAFOD CEIRI**

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.

**d) YMATEB PRIFFYRDD DWYFOR I GEISIADAU ATGYWEIRIO PRIFFYRDD**

<u>Y Ganolfan at Lithfaen Bach</u>

Nid oes modd syml i ddraenio'r dŵr arwyneb yn anffodus. Mae'r gwaith o sodli'r ymylon ffordd yma wedi ei gynnwys at raglen waith y gweithlu. Mae ffordd fel y gwyddoch wedi ei chynnwys ar gylchdaith graeanu blaenoriaeth Un Ardal Dwyfor.

<u>Lôn at Gors Lwyd</u>

Drwg gennyf hysbysu na ellir cynnwys ffordd o'r statws yma ar y cylchdeithiau blaenoriaeth graeanu. Mae yna arweiniad cenedlaethol a chanllawiau ar faint o'r prif ffyrdd ar sail dosbarth defnydd sydd yn briodol i awdurdod ffyrdd ei rhagofalu. Yn fras 30% o'r rhwydwaith. Nid yw'r ffordd yma yn cyrraedd y meini prawf angenrheidiol fesur defnydd a hwylustod mynediad o'r adnoddau ar gael.

<u>Lôn Ffosydd</u>

Mae yna ymgais aflwyddiannus eisoes wedi cymryd lle i adfer llif y draen yn y safle dan sylw. Fel y bydd tywydd yn gwella a chaniatáu bydd y gweithlu yn dychwelyd i'r safle i adfer a chwblhau'r gwaith.

Ni dderbyniwyd sylwadau pellach yn ystod y cyfarfod.

**e) YMATEB BHIB I GAIS I YCHWANEGU ASEDAU**

Gweler pwynt 4.

**f) CRONFA CAPEL BETHANIA, PISTYLL**

Gofynnodd GW os oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau ar y mater gan fod y safle yn un hanesyddol yn y gymuned.

*Llofnodwyd gan..........................................................................................................Dyddiad..........................................*

| | |
|---|---|
| | Yn dilyn trafodaeth ni dderbyniwyd cyfarwyddiadau i gefnogi'r gronfa. |
| **14.** | **CYLLID** |

**a) CYFRIFON 2020/21 - 2021/22**

Cynigwyd y cyfrifon yn gywir gan GW gyda GJ yn eilio a phawb yn cytuno.

**b) TRAFODION Y GYFRIFLEN BANC DIWEDDARAF**

| **Cyfrif Cyfredol 01/03/21 – 31/03/21 - £8,394.78** | | |
|---|---|---|
| Taliadau - | £160.00 | Cyflog Clerc |
| | £14.00 | Treuliau Clerc |
| | £1,700.00 | Rhodd i Gae Chwarae |
| | £1,000.00 | Rhodd i Hafod Ceiri |
| **Balans** | | **£5,520.78** |

| **Cyfrif Cadw 07/03/21 – 06/04/21 - £2,660.73** | |
|---|---|
| Derbyniadau - | 0.00 |
| **Balans** | **£2,660.73** |

**c) TALIADAU A GYMERADWYWYD YN Y CYFARFOD**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc | £160.00 |
| Treuliau Clerc | £14.00 |
| Ymaelodaeth Un Llais Cymru | £98.00 |

| | |
|---|---|
| **15.** | **TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF** |

Lleoliad i'w drefnu ac yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid

Nos Fawrth Mai 11eg, 2021 – 7y.h

*Llofnodwyd gan.............................................................................................Dyddiad..........................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*